Ysgol Glan y Môr

Bwletin i Rieni: Tymor yr Haf 2017

Bydd yr ysgol yn ail- gychwyn am dymor newydd **Dydd Mercher, Medi 6ed 2017**

Dyddiadau Pwysig

Medi

6 Tynnu lluniau blwyddyn 7 +9
12 Tynnu Llun Ysgol Gyfan
13 Noson Wobrwyo
22 Taith Gerdded
29 HMS Sirol

Hydref

3 Noson Agored 6-8

Hanner Tymor - 30/10/17 - 03/11/17

Tachwedd

22 Ffair Aeaf

Cofiwch fod modd i chi brynu **gwisg ysgol a gwisg ymarfer corff** yn uniongyrchol o'r ysgol.

Os bydd rhaid i'r ysgol gau mewn argyfwng (e.e. eira a.y.y.b.) Bydd manylion ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd **www.gwynedd.gov.uk**

Eisteddfod Dafydd ap Gwilym

Llongyfarchiadau i Luned Rhys o flwyddyn 10 am ennill y gadair yn Eisteddfod Dafydd ap Gwilym yng Ngholeg Rhydychen. Roedd hon yn gystadleuaeth ar gyfer disgyblion TGAU a Lefel A, ac Aneirin Karadog Prifardd Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy oedd y beiriad. Teithiodd Luned i Rydychen er mwyn cymryd rhan yn y seremoni, a chafodd ymweld â'r ddinas, y brifysgol a chymdeithasau gyda rhai o'r myfyrwyr fel rhan o'r diwrnod.

Cinio Ysgol

Pris cinio ysgol o fis Medi 2017 fydd £2.40

Ymweliadau

Dros yr wythnosau diwethaf, cafodd blwyddyn 9 a 10 y cyfle i ymweld â Phrifysgol Bangor. Roedd hwn yn gyfle gwych iddynt gael dechrau paratoi, ymchwilio a meddwl am y camau nesaf ar ôl iddynt adael yr ysgol. Dyma oedd gan Lucy Hughes i'w ddweud am y profiad –

"Roedd hwn yn ddiwrnod da iawn! Fe wnes i ddewis ymweld gyda'r Adran Gwyddorau Meddygol. Roedd hwn yn ddiwrnod amrywiol iawn. Cawson weld sut fath o waith ysgrifennu mae myfyrwyr yn cael ei wneud yn y brifysgol. Ond, hefyd cawsom wneud gweithgareddau ymarferol fel cael ei'n dysgu sut i wneud CPR a gweithgareddau tebyg eraill. Diolch am y cylfe i gael ymweld â'r brifysgol, ac i ddechrau meddwl am fy ngyrfa"

Yr Adran Wyddoniaeth

Llongyfarchiadau i dîm o ddisgyblion blwyddyn 10 a lwyddodd i gyrraedd rownd gyn-derfynol Her Gwyddoniaeth 2017 a gynhaliwyd gan Brifysgol Gaerdydd. Aelodau y tîm hwnnw oedd Lucy Hughes, Megan Griffiths, Alaw Lloyd Jones a Thea Murray-Williams.

Byddwn yn ffarwelio gyda nifer o staff diwedd y tymor yma: Llion Jones, Lona Williams, Delyth Jones, Lauren Evans, Rhiannon Evans. Dymuniadau da iddynt i'r dyfodol.

FFARWELIO GYDA BLWYDDYN 11

Wedi pum mlynedd o addysg yn yr ysgol, fe ddaeth hi'n bryd i ni ffarwelio gyda'r blwyddyn 11 presennol. Felly, ar brynhawn Mehefin yr 20fed cafwyd Seremoni'r Ffeil Gynnydd yn Neuadd yr ysgol. Roedd hwn yn gyfle i hel atgofion o'r cyfnod a dreuliont yn yr ysgol, yn ogystal â derbyn y ffeil gynnydd. A hithau yn ddiwrnod braf o Fehefin, aeth pawb yn eu blaenau wedyn i Nant Gwrtheryn ar gyfer y prom. Cafwyd yno fwyd bendigedig, yn ogystal â seremoni wobrwyo a drefnwyd gan Prif-fachgen, Prif-ferch a'u dirprwyon. Cafodd pawb ddiwrnod wrth eu bodd, a diolch i bawb a fu'n rhan o'r trefnu. Pob lwc i bawb i'r dyfodol

CROESAWU'R DISGYBLION NEWYDD

Dros yr wythnosau diwethaf, cawsom gyfle hefyd i groesawu disgyblion o flwyddyn 6 i'r ysgol. Bwriad y dyddiau yma yw hwyluso'r pontio o'r ysgolion cynradd i'r ysgol uwchradd. Mae hwn hefyd yn gyfle i'r disgyblion ddod i adanabod y staff, yr adeilad yn ogystal a disgyblion hŷn yr ysgol Bu blwyddyn 6 yn dilyn amserlen tebyg i'r hyn y byddant yn ei ddilyn flwyddyn nesaf. Cawsant lawer o hwyl wrth fynd ati i greu yn y gwersi Technoleg, i fod yn greadigol yn y gwersi Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â gwneud ambell arbrawf yn y gwersi Gwyddoniaeth.

JOCATHON - COMIC RELIEF

Fel rhan o'r ymgyrch codi arian at Comic Relief eleni penderfynwyd cynnal 'Jocathon'. Cynhyrchwyd llyfr o gant o'r jôcs gorau ac ar y brig gyda'r jôcs mwyaf doniol oedd Ifan Rhys a Harri Gwyn 8P a Cai Pritchard o 7R. Mae angen diolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniad, yn enwedig Kian Parry-Jones a Tyler Robley o 7E a gyflwynodd y mwyaf o jôcs i gael eu barnu. Diolch hogiau, heb eich help chi fuasen ni byth wedi llwyddo i gasglu £102 ychwanegol at yr elusen haeddiannol.

Llongyfarchiadau i'r criw Dug Caeredin!

Bu criw o ddisgyblion yn brysur iawn eleni yn cwblhau pedwar rhan o'r Wobr Dug Caeredin. Yn y rhan gyntaf bu yn gwirfoddoli i helpu'r gymuned. Yn yr ail ran bu i'r plant ymarfer sgiliau corfforol ac yn y drydydd rhan dysgu a datblygu sgiliau newydd. I orffen roedd yn ofynnol iddynt gymryd rhan mewn alldaith anfarwol!
Mae Bl 10 wedi ennill gwybr efydd a chriw bl11 wedi ennill gwobr arian. Da iawn nhw!

Congratulations to the Duke of Edinburgh gang!

Many of the pupils have been busy this year completing the four sections of the Duke of Edinburgh Award. In the first section they have been volunteering to help the community. Second part been enhancing their physical condition and in the third section learning and developing new skills. To complete the award, the last section required a spectacular expedition.! Year 10 gained a Bronze Award and Year 11 gained a Silver Award. Well done all!

Rasio GO-Kart F24 Greenpower

Aeth 10 o ddisgyblion Bl9 draw i Drac Môn i gymeryd rhan mewn rasus Go-Kart F24 a drefnwyd gan y cwmni Greenpower. Mae'r Go-Kart yn cael ei yrru gan Fodur Trydanol sydd yn cael ei phweru gan ddwy fatri 12V. Roedd yn rhaid cael tri gyrrwr i rasio'r go-cart am o leiaf 20 munud yr un. Roedd yna ddwy rownd o rasio; pwrpas bob ras oedd mynd cyn belled â phosibl heb i'r batri redeg allan o bwer. Eto eleni, fe gawsom lwyddiant gan ddod yn 3ydd yn ein ein grŵp (y safle gorau gan unrhyw ysgol Uwchradd o Gymru yng ngrŵp Go-Kart F24). Da iawn i'r holl disgyblion sef Anna Griffiths, Twm Ellis, Efa Williams, Llinos Hughes, Carys Dukes, William Jones, Gethin Phillips, Huw Watson, Tomos Wyn Roberts, Ffion Williams.

Green Power Go - Cart F24 Competition

A group of year 9 pupils went to Track Môn to race the F24 Go-Kart. This event was arranged by Greenpower company. The team had to choose 3 drivers, each of which had to drive the go-kart for 20 minutes,. In each round the teams had to try and complete the circuit without running out of power. Each go-kart was powered by two 12V batteries. The team had a successful day on the track! They won 3rd prize in their catergory for schools in Wales. Well done Anna Griffiths, Twm Ellis, Efa Williams, Llinos Hughes, Carys Dukes, William Jones, Gethin Phillips, Huw Watson, Tomos Wyn Roberts, Ffion Williams.

Wythnos yn Llundain

Yn hytrach na chymryd rhan yn wythnos weithgareddau'r ysgol eleni, 'roeddwn yn ffodus i fod wedi cael fy newis yn un o 8 o ddisgyblion blwyddyn 10 ac 11 drwy Gymru i fynd ar wythnos o 'brofiad gwaith' i Lundain.

'Roedd hyn yn cael ei gynnal ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Judicium Education. Golygai hyn deithio ar y trên o Gaerdydd i Lundain bnawn dydd Sul ac aros mewn ystafelloedd myfyrwyr yn Cartwright Gardens wrth yml Kings Cross.
Peth cyntaf bore dydd Llun 'roedd tacsi yn aros amdanaf ac un ferch arall i fynd a ni i BBC Wogan House er mwyn siarad yn fyw ar Post Cyntaf, BBC Radio Cymru. Yn ystod y dydd cawsom ein rhannu yn ddau dîm er mwyn paratoi ar gyfer dwy dasg wahanol:

Cyflwyno pam mai Cymru oedd y lle gorau ar gyfer sefydlu busnes
Creu menter a fyddai'n llewyrchus yng Nghymru ymhen 25 mlynedd (y flwyddyn 2042)

Yn ogystal cawsom ddwy wers ac 'roedd disgwyl i ni weithio am o leiaf 4 awr bob nos ar ein prosiectau!!

Dydd Mawrth aethom i Brifysgol Gonville and Caius, yng Nghaergrawnt 'mhle cawsom ein tywys gan fyfyrwraig oedd wedi bod ar y profiad gwaith yn Llundain ychydig flynyddoedd yn flaenorol. Cawsom fynd o amgylch y brifysgol a gweld y neuaddau, llyfrgelloedd a swyddfa'r Athro Steven Hawking.

Dydd Mercher cawsom fynd i brif swyddfa Eversheds and Southerland, cwmni Cyfreithiol enfawr ymhle cawsom gyflwyniad gan yr adran addysg a'r gweithle a chael ein hebrwng o amgylch eu gardd ar y to oedd a golygfeydd anhygoel o'r ddinas. Yn y prynhawn 'roedd angen i ni gyflwyno ein gwaith ar y dasg gyntaf - i Brif Weithredwr Judicium Education, Alex Mheta.

Dydd Iau cawsom fynd ar daith o gwmpas Y Shard - sef adeilad talaf Ewrop. Aethom i fyny yn y lifft cyflym (cyflymder 6m yr eiliad) i'r llawr awyr agored - sef Llawr 72. Yn y prynhawn 'roeddem yn teithio ar y trên i Gaerdydd lle 'roeddem yn aros yng ngwesty moethus Mercure Holland House.

Dydd Gwener 'roedd rhaid mynd i Neuadd Cornerstone er mwyn cyflwyno ein menter ar gyfer y flwyddyn 2042. Yr enw ar fenter ein tîm ni oedd "Waste Not Want Not". Cwmni oedd am droi gwastraff yn egni gwyrdd Cymreig….'Roedd rhaid i ni gyflwyno ein Menter i banel o feirniad ar ffurf 'Dragons Den' a hefyd y Gweinidog Addysg Kirsty Williams yn ogystal â theulu, ffrindiau ac athrawon yr 8 disgybl.

'Roedd yn brofiad bythgofiadwy 'mhle cefais gyfle i greu ffrindiau newydd, profiad o weithio fel tîm, a gorfod meddwl ar fy nhraed.

A Week in London

I was not able to participate in the school's activity week this year as I had been successful in my application to attend a week of work experience under the guidance of the Welsh Government and Judicium Education in London. I felt privileged to have been selected to attend as I was one of eight pupils in years 10+11 throug out Wales to be given the opportunity.

I travelled to London on Sunday July 9th and stayed in student rooms near King Cross station.
On the Monday morning I was taken by taxi to the BBC's Wogan House to be interviewed on the radio for Radio Cymru's "Post Cyntaf" programme.

Later that day we were split into two teams and were asked to prepare two tasks.

1. A presentation explaining why Wales is a good place to set up a business.
2. Create an enterprise which would succeed in Wales in 2042.

It was a real challenge and we were expected to work at least four hours on the projects during the evening.

On Tuesday we visited Gonville and Caius Universities at Cambridge. We were given a guided tour by a student who had been on work experience in London a few years previously. We saw the halls, libraries and most interestingly Steven Hawkins' office.

On the Wednesday we visited the main offices of Eversheds and Southerland, a large legal firm. Once again we were given a guided tour of the offices but the most spectacular part of the visit was the roof garden and the amazing views of the London landscape! During the afternoon we had to present our work on the first task to the chief executive of Judicium Education, Alex Mheta.

We visited the Shard , the tallest building in Europe, on Thursday. The lift travelled at an amazing 6 miles a second to the 72nd floor! Later that day we travelled to Cardiff and stayed at the luxurious Mercure Holland House Hotel.

On the Friday we had to arrive at Cornerstone Hall to present our ideas for the 2042 business enterprise. My team had named ourselves the "Waste Not Want Not" team. Our vision was to change waste into green Welsh energy. We presented our ideas in a "Dragon's Den" kind of forum to the Welsh Education Minister Kirsty Williams and to friends, family and teachers.

It was a truly memorable experience where I was given the opportunity to make new friends and discover a great deal about myself.

WYTHNOS GWEITHGAREDDAU / ACTIVITIES WEEK

MABOLGAMPAU / SPORTS DAY

Enillwyr CWPAN COFFA PAUL WALDO 2017 Winners:
1af Gwylan - Capteiniaid Lucy Hughes a Deio Owen
2il Enlli
3ydd Tudwal

Enillwyr Tŷ Genethod - Gwylan
Capteiniaid - Lucy Hughes, Lucy Collier, Elen Pari

Enillwyr Tŷ Bechgyn - Capten - Dafydd Jones

Pencampwyr Bechgyn - Gethin Jones, Tomos Davies, Callum Lavender, Hayden Williams, Ethan Hughes

Pencampwyr Merched - Cassie Ogilvy, Elin Jones, Lleucu Bowen, Lucy Collier, Lucy Hughes

Gwobrau Ymdrech Arbennig / Special Effort Awards:

Blwyddyn 7: Tomos Povey Jones (Enlli) Keira Martin (Gwlan)
Blwyddyn 8: Robin Pari (Enlli) Lily Dunwoody
Blwyddyn 9: Chloe Martin Thomas (Gwylan) Elin Jones (Enlli)
Kelly Evans (Tudwal) Twm Ellis (Tudwal)
Huw Watson (Enlli)
Blwyddyn 10: Elen Pari (Gwylan) Mared Tudor (Enlli)
Elgan Buckley Jones (Enlli) Dylan Jones (Tudwal)

Records Newydd 2017 New Records

Aaliah Costella (Tudwal) - 200m - 30 eiliad 87
Elin Gwawr Jones (Gwylan) - Naid Hir / Long Jump - 4m 30cm
Elin Gwawr Jones (Gwylan) - Pwysau / Shot Put - 9m 38cm
Mali Williams (Gwylan) - 200m - 28 eiliad 97
Gethin Jones (Enlli) - Naid Uchel / High Jump - 1m 55cm
Tomos Davies (Gwylan) - 200m - 24 eiliad 40